

2012 Rhif 6 (Cy. 2)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Wedi'i wneud 3 Ionawr 2012

Yn dod i rym 8 Ionawr 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd Caer - Bangor (A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi'u bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Ionawr 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnod o 28 niwrnod ar y mwyaf o 00:01 o'r gloch ar bob un o'r dyddiadau a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “y darn(au) o'r gefnffordd” (“*the length(s) of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 4 o'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar hyd un ai'r gerbyttfordd tua'r dwyrain neu'r gerbyttfordd tua'r gorllewin ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4.—(1) Tra bo cerbydau yn cael eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbyttfordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 8, ddim yn cael eu gwahardd rhag symud yn y gerbyttfordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:-

- (i) mynd yn lôn allanol y gerbyttfordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;
- (ii) mynd mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo cerbydau yn cael eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbyttfordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 8, ddim yn cael eu gwahardd rhag symud yn y gerbyttfordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:

- (i) mynd yn lôn allanol y gerbyttfordd tua'r dwyrain ar y darn o'r gefnffordd mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;
- (ii) mynd mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n fwy na 3.20 metr o led fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

9. Drwy hyn, atelir darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Glanconwy i Forfa Conwy) 1990(3) mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 yn ystod yr amserau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

10. Drwy hyn, atelir darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Bae Colwyn i Lanconwy) 1985(4) mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 yn ystod yr amserau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

11. Drwy hyn, atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy - Morfa Conwy, Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2011(5) mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 yn ystod yr amserau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

12. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 3 Ionawr 2012

R Bennett

R BENNETT

Pennaeth yr Uned Prosiectau Seilwaith
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (3) O.S. 1990/1586
- (4) O.S. 1985/824
- (5) O.S. 2011/2330 (W.245)

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Terfynau'r gwrthlif

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 105 metr i'r dwyrain o borth dwyreiniol twnnel Conwy ac sy'n ymestyn tua'r gorllewin hyd at bwynt 110 metr i'r gorllewin o borth gorllewinol twnnel Conwy.

ATODLEN 2 Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

1. Y bwlch yn y llain ganol a leolir rhwng pwynt 45 metr i'r dwyrain o borth dwyreiniol twnnel Conwy a phwynt 105 metr i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

2. Y bwlch yn y llain ganol a leolir rhwng pwynt 60 metr i'r gorllewin o borth gorllewinol twnnel Conwy a phwynt 110 metr i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

ATODLEN 3 Gwahardd cerbydau a therfyn cyflymder o 40 mya

1. Y darn hwnnw o brif gerbyttffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r dwyrain o ganolbwynt cylchfan cyfnewidfa Glanconwy wrth gyffordd 19, ac sy'n ymestyn tua'r gorllewin hyd at bwynt 787 metr i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Penrhyn Penmaenbach, gan gynnwys y bylchau yn y llain ganol yn Atodlen 2.

2. Y darnau cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth gyffordd 19, cyfnewidfa Glanconwy.

3. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth gyffordd 18, cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

4. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth gyffordd 17, cyfnewidfa Morfa Conwy.

ATODLEN 4 Terfynau ar Led Cerbydau

1. Y darn hwnnw o'r gerbyttffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 30 metr i'r dwyrain o ganolbwynt cylchfan gyffordd 16, cylchfan Puffin i bendraw'r trwyn lle mae ffordd ymuno tua'r dwyrain yn toddi i mewn i brif gerbyttffordd yr A55 wrth gyffordd 18, cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

2. Y darn hwnnw o'r gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o gychwyn y trwyn lle mae'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn gwyro oddi wrth brif gerbyttfordd yr A55 wrth gyffordd 18, cyfnewidfa Cyffordd Llandudno hyd at bwynt 30 metr i'r dwyrain o ganolbwynt cylchfan gyffordd 16, cylchfan Puffin, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth gyffordd 18.

ATODLEN 5

Dyddiadau

Dydd Sul 8 Ionawr 2012
Dydd Sul 12 Chwefror 2012
Dydd Sul 25 Mawrth 2012
Dydd Sul 13 Mai 2012
Dydd Sul 24 Mehefin 2012
Dydd 2 Medi 2012
Dydd 30 Medi 2012
Dydd Sul 18 Tachwedd 2012